# CYNLLUN CYNEFIN
# BLAENAU FFESTINIOG



Y Moelwynion, Kyffin Williams


Datblygwyd gan:

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

**Cynnwys**


1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Demograffeg a Phroffil Economaidd
4. Cyd-destun Strategol
5. Prosiectau Adfywio
6. Proffil Twristiaeth
7. Isadeiledd a Gwasanaethau
8. Ymgynghori
9. Archwiliad o'r Gymuned
10. Asesiad Twristiaeth / Ymwelwyr
11. Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol
12. Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd
13. Casgliadau ac Argymhellion
14. Ffynonellau Ariannu Posib
15. Camau nesaf
16. Rhestr atodiadau:

   Atodiad 1: Data wardiau
   Atodiad 2: Rhestr o unigolion/mudiadau y cysylltwyd â nhw
   Atodiad 3: Astudiaeth o Gyfleodd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol [Dalenni 1 - 7]

## 1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cynefin hwn yn cyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a'i ddau amcan yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi
- Hyrwyddo adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd trylwyr i hysbysu datblygiad y Cynllun, a oedd yn cynnwys:

- Adolygiad dogfennol a data o broffil demograffig ac economaidd Blaenau Ffestiniog, y cyd-destun strategol, prosiectau adfywio a phroffil yr ymwelwyr/twristiaeth
- Asesiadau manwl o isadeiledd y dref, gwasanaethau, darpariaeth gymunedol, y cynnig i'r ymwelydd, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol – yn eu mysg, gwnaed gwaith archwilio o safbwynt yr 'ymwelydd cudd'
- Asesiad o gryfderau a gwendidau allweddol Blaenau Ffestiniog, a'r heriau a'r cyfleoedd yma
- Adnabod ffynonellau ariannu posib er mwyn gallu blaenoriaethu/mesur dichonoldeb prosiectau
- Casgliadau ac argymhellion, lle nodwyd y themâu ar gyfer datblygu Blaenau Ffestiniog, yn ogystal â phrosiectau posib a'r camau nesaf, er mwyn dechrau ar y prosiectau a flaenoriaethwyd.

I gyd-fynd â'r Cynllun Cynefin, paratowyd Cynllun Gweithredu, sydd yn nodi ac yn blaenoriaethu prosiectau cyfredol ac arfaethedig, ynghyd ag adnoddau gofynnol, amserlenni, arweinydd prosiect a phartneriaid posib. Mae hon yn ddogfen weithredol, a gaiff ei diweddaru'n gyson a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliad. Adnabuwyd y prosiectau yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil eilaidd**:

- Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos fod incwm, iechyd, tai, diogelwch cymunedol a mynediad i wasanaethau yn faterion o bwys ym Mlaenau Ffestiniog, ond fod yr amgylchedd ffisegol yn cymharu'n dda gyda gweddill Cymru. Dengys data a gasglwyd o gyfrifiad 2011 fod diweithdra'n uwch na'r cyfartaledd a bod perchenogaeth tai a cheir yn is na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o ardaloedd Blaenau Ffestiniog.
- Cyflawnwyd tri phrosiect adfywio allweddol ym Mlaenau Ffestiniog ers 2013, a chafwyd newidiadau gwirioneddol yng nghanol y dref ac yn y sector awyr agored o'u herwydd.
- Daeth yn amlwg mewn arolwg ar-lein (wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd) fod angen mynd i'r afael â chyfleusterau i'r cyhoedd ac ymwelwyr, gan gynnwys atyniadau o safon i ymwelwyr; mynediad i isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys parcio; ymddwyn yn gyfeillgar tuag at dwristiaid; a siopa/cyfleoedd i siopa.
- 2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed i'r sector dwristiaeth Gwynedd, gyda gwariant o dros £1 biliwn, dros 7 miliwn o ymwelwyr, a chynnydd mewn gwario arian y tu allan i fisoedd yr haf.
- Denir ymwelwyr i Wynedd oherwydd ei thirwedd, ei chefn gwlad a'i thraethau, yn ogystal â'r gweithgareddau awyr agored helaeth. Datganodd 82% o ymwelwyr eu bod yn fodlon iawn gyda'u hymweliad, a dywedodd 98% y byddent yn debygol o ddychwelyd i Wynedd.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil cynradd**:

- Mae teimlad cyffredinol y dylid newid cyfeiriad yr adfywio a'r datblygu economaidd er mwyn creu cyfleoedd newydd ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer y bobl leol, yn hytrach na chanolbwyntio ar dwristiaeth yn unig i greu incwm. Yn ogystal, nodwyd mai'r blaenoriaethau a ganlyn y dylid eu datblygu:
    - Gwella tirlun y dref ymhellach a chynnig profiad mwy cynhwysol i'r ymwelydd
    - Creu cyfleoedd newydd i ddehongli hanes cymdeithasol a diwylliannol y dref
    - Gwneud y mwyaf o ddatblygiad yr orsaf newydd/hwb trafnidiaeth
    - Datblygu busnesau bychain yn y sector dwristiaeth ymhellach nad ydynt yn dibynnu ar grantiau cyfalaf mawr
    - Annog busnesau bychain i gefnogi gweithgareddau i wella'r dref a mentrau marchnata ar y cyd
    - Sicrhau fod Blaenau Ffestiniog yn elwa o weithgaredd cynyddol sydd ynghlwm â phroses enwebiad safle treftadaeth y byd.
- Ym Mlaenau Ffestiniog mae'r nifer uchaf y pen o fentrau cymdeithasol yng Nghymru, ac ar y cyd maent yn cyflogi oddeutu 150 person i ddarparu amrediad o weithgareddau. Maent yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu'r nod gyffredinol o wella datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal.
- Er bod yma amrediad clodwiw o weithgareddau i ymwelwyr yn y dref a'r ardal gyfagos, ychydig o wybodaeth sydd am hanes ac arwyddocâd ei hadeiladau, a does dim i ddenu neb i grwydro'r dref. Gwaethygir hyn gan brinder yr arwyddion/arwyddbyst a thirwedd y dref. Ymddangosa canol y dref yn llwm a di-raen gyda nifer o siopau gweigion a sawl adeilad mawr angen gwaith atgyweirio.
- Roedd adolygiadau gan ymwelwyr yn dangos ymateb cymysg i Flaenau Ffestiniog: y rhai cadarnhaol yn canmol diffuantrwydd yr ardal, ei hamrywiaeth a'i hagosrwydd at y mynyddoedd; a'r rhai negyddol yn nodi diffyg gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr a 'chaledrwydd' y lle.
- Mae ein **casgliadau** yn deillio o'r dadansoddiad SWOT (a hysbyswyd gan ganfyddiadau'r ymchwil cynradd ac eilaidd), sy'n seiliedig ar y themâu a ganlyn fel blaenoriaethau adfywio:
    1. Datblygu sgiliau, meithrin capasiti, hyfforddi, a denu/cynnal talent
    2. Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref
    3. Digwyddiadau (cyfleoedd)
    4. Y cynnyrch twristiaeth, a chyfleusterau a phrofiad ymwelwyr
    5. Datblygu, cefnogi ac annog busnesau bychain
    6. Gwelliannau i ganol y dref
    7. Isadeiledd, cysylltiadau a chyfeiriadedd
    8. Cyfleodd i ddatblygu ac adfywio yn y gymuned
    9. Adeiladau a'r amgylchedd adeiledig

Mae'r adroddiad yn **argymell** rhoi ystyriaeth bellach i'r prosiectau a ganlyn:

- Cynllun cynnig cysyniadol i sefydlu mynedfeydd newydd/rhwydwaith o lwybrau yn cysylltu Blaenau Ffestiniog gyda'i chwareli
- Datblygu adnoddau dehongli/arwyddion i gyfeirio ymwelwyr a dehongli adeiladau hanesyddol
- Ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr yn yr orsaf drenau newydd
- Cynnal Astudiaeth Dichonoldeb ar ddarpariaeth barhaol o wasanaethau dehongli
- Sicrhau fod datblygu'r orsaf newydd yn sbardun i'r prosiectau

- Ymchwilio'r prosiectau amgylchedd adeiledig a gynigiwyd a blaenoriaethu ar sail eu gallu i adfywio'r gymuned neu i ddenu arian.

## 2 Cyflwyniad

Datblygwyd y Cynllun Cynefin i gyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi ac i hyrwyddo adfywiad economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Fe'i hadwaenid fel 'y dref a roddodd do ar y byd' neu 'ddinas y llechi'', ac erbyn 1901 Blaenau Ffestiniog oedd yr anheddiad mwyaf poblog ym Meirionnydd a'r mwyaf ond un yng ngogledd Cymru. Ar un adeg, roedd mwy na 4,000 o ddynion yn gweithio yn y chwareli lleol ac, er mwyn cludo'r cynnyrch llechi a gwasanaethu'r boblogaeth oedd yn cynyddu, adeiladwyd tair cangen i'r rheilffordd (Rheilffordd y London North West, Rheilffordd y Great Western a Rheilffordd Ffestiniog) o wahanol gyfeiriadau er mwyn cyrraedd Blaenau Ffestiniog.

Adeiladwyd Gorsaf Ynni Dŵr Dôl Wen i gyflenwi trydan i'r chwareli lleol ym 1899, ac ym mis Mai 1902, Blaenau Ffestiniog oedd y dref gyntaf ym Mhrydain i gael goleuadau stryd a ddefnyddiai drydan a gynhyrchwyd drwy ynni dŵr.

Ym 1963, agorwyd Gorsaf Ynni Ffestiniog yn Nhanygrisiau, a hon oedd yr orsaf ynni storfa bwmp gyntaf ym Mhrydain a'r mwyaf yn Ewrop ar y pryd. Datblygodd Chwarel yr Oakeley cymaint fel mai yma oedd agorydd llechi tanddaearol mwyaf y byd; mae dal tua 50 milltir o gledrau rheilffordd yn ei hamrywiol lefelau tanddaearol.

Yn dilyn dirywiad y diwydiant llechi a chau rhai o'r chwareli a'r mwyngloddiau, dioddefodd y dref galedi economaidd a diweithdra ac amddifadedd mawr sydd dal yma hyd heddiw. Ers hynny, fodd bynnag, mae nifer o atyniadau i ymwelwyr wedi cael eu sefydlu yn y dref. Bellach, twristiaeth yw ei diwydiant pwysicaf a chyflogwr mwyaf y dref wrth i Flaenau Ffestiniog ei sefydlu hun yn un o brif gyrchfannau gweithgareddau awyr agored ac antur y Deyrnas Unedig ochr yn ochr â'i diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth gyfoethog.

## 3 Demograffeg a Phroffil Economaidd

Mae gan Flaenau Ffestiniog boblogaeth o 4,876; ond, mae yma dair ward (sy'n cyfrif fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is), sef Bowydd a Rhiw; Diffwys a Maenofferen; a Theigl. Er mwyn cael trosolwg o gyd-destun economaidd Blaenau Ffestiniog, rhaid dadansoddi'r data (ffynhonnell: Cyfrifiad 2011) o bob ward, ac fe'u cyflwynir fesul un yn Atodiad 1. Ond, dyma grynodeb byr:

- Mae nifer y bobl ym Mlaenau Ffestiniog sydd yn weithgar yn economaidd a'r rhai sy'n anweithgar tua'r un faint ag yng Ngwynedd a gweddill Cymru.
- Ond, mae lefelau uwch o ddiweithdra ym Mowydd a Rhiw (11%) ac yn Niffwys a Maenofferen (10%) nac yn Nheigl (7%), sydd â chyfartaledd tebyg i Wynedd (5.5%) a Chymru (6.5%).
- Yn yr ardal gyfan, mae'r nifer o bobl sydd yn sâl tymor hir/anabl yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (12.5%), ond mae'n cymharu'r gyda chyfartaledd Cymru gyfan (18%).
- Mae nifer y bobl (oed 16+) yn Niffwys a Maenofferen (30%) sydd heb gymwysterau yn uwch na'r cyfartaledd (23% yng Ngwynedd a 26% yng Nghymru), ond yn y ddwy ardal arall mae'r nifer yn debyg i'r cyfartaledd.
- Mae perchnogaeth eiddo yn Nheigl (75%) yn uwch na'r cyfartaledd (66% yng Ngwynedd a 68% yng Nghymru) ac mae'n is na'r cyfartaledd ym Mowydd a Rhiw (63%), ac yn Niffwys a

Maenofferen (64%). Mae’r lefelau hyn yn cyfateb â nifer yr aelwydydd sy'n rhentu'n breifat neu'n gymdeithasol.

- Mae canran yr aelwydydd sydd heb gar lawer yn uwch na'r cyfartaledd (21% yng Ngwynedd a 23% yng Nghymru) yn Niffwys a Maenofferen (37%) a Bowydd a Rhiw (31%), ond yn Nheigl (23%) mae’n nes at y rhif cyfartalog.
- Mae lefelau iechyd yn y tair ward yn debyg i'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru.
- Mae llai o bobl yn y dosbarth cymdeithasol proffesiynol a rheolwyr yn Niffwys a Maenofferen (18%) a Bowydd a Rhiw (19%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru (27%), ac mae nifer o aelodau’r gymuned a chanddynt rai/dim sgiliau (38% a 33%) lawer yn uwch na’r cyfartaledd (26% yng Ngwynedd a 29% yng Nghymru). Mae’r gyfran o aelodau’r gymuned a chanddynt sgiliau ac sy’n fyfyrwyr yn debyg i’r cyfartaledd.
- Mae’r gyfran o aelodau cymuned Teigl sy’n bobl broffesiynol a rheolwyr neu sy’n bobl â sgiliau yn debyg i gyfartaledd Gwynedd a Chymru. Fodd bynnag, mae yno ychydig mwy o bobl na’r cyfartaledd a chanddynt rai/dim sgiliau (33%) a llai o fyfyrwyr na'r cyfartaledd (12%).

Y prif gyflogwyr yn y dref yw :

- Welsh Slate – mae Welsh Slate/Breedon yn berchen ar sawl chwarel ym Mlaenau Ffestiniog ac mae’n cyflogi 170 o bobl ar draws ei safleoedd yng Ngogledd Cymru.  Y teimlad yw y gallai'r enwebiad STB godi ymwybyddiaeth o’r cynnyrch o ansawdd uchel a, thrwy hynny, gael effaith gadarnhaol ar ei weithgaredd masnachol
- Metcalfe Catering – gwneuthurwyr a dosbarthwyr offer paratoi bwyd
- Llechwedd/Slate Mountain – atyniad i ymwelwyr sydd yn dehongli hanes y chwareli llechi ym Mlaenau Ffestiniog
- Zip World - canolfan antur danddaearol ac ar y wyneb i oedolion a phlant, gyda’i gwifrau gwibio a’i thrampolinau enfawr
- Cwmni Bro Ffestiniog – mae tri aelod ar ddeg yn rhwydwaith Cwmni Bro Ffestiniog sy’n cyflogi rhyw 150 o bobl.
- Rehau – ffatri ym Mlaenau Ffestiniog sy'n cynhyrchu ffenestri a drysau PVC-U; mae'r cwmni’n gweithredu ar draws Ewrop.
- First Hydro – Gorsaf Ynni Ffestiniog ym Mlaenau Ffestiniog sydd yn cynhyrchu digon o drydan (drwy ei phedair uned gynhyrchu) i gyflenwi holl ofynion ynni Gogledd Cymru am nifer o oriau.

<u>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</u>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014 yw mesuriad swyddogol amddifadedd cymharol yr ardaloedd llai yng Nghymru; gelwir y rhain yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ac mae ganddynt boblogaeth o 1,600 ar gyfartaledd. Gan fod poblogaeth pob ACEHI yn debyg, mae'n haws gwneud dadansoddiad cymharol.  Cyflwynir y Mynegai fel cyfres o rengoedd: mae rheng 1 yn cynrychioli’r ardal fwyaf difreintiedig, a rheng 1909 yn cynrychioli’r un lleiaf difreintiedig. Mae hyn yn galluogi i ni wybod pa ardaloedd sydd yn fwy neu’n llai difreintiedig, ond nid maint y gagendor.


Yn Atodiad 1, rydym yn cyflwyno data sy'n dangos sut mae'r ardaloedd ACEHI ym Mlaenau Ffestiniog yn cymharu gydag ardaloedd eraill ledled Cymru ac yng Ngwynedd. Dengys y tabl, er enghraifft, fod incwm, iechyd, tai, a diogelwch cymunedol yn faterion o bwys yn y tair ardal ACEHI; serch hynny, dengys fod yr amgylchedd ffisegol yn y tair ACEHI yn cymharu'n dda gydag ardaloedd yng ngweddill Cymru.


Dengys y data mai Teigl yw'r ardal leiaf difreintiedig (er ei bod yn dal yn yr 50% uchaf o blith yr ardaloedd ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru gyfan) o'r tair ACEHI, a bod gan Ddiffwys a Maenofferen, a Bowydd a Rhiw, lefelau tebyg o amddifadedd ar draws yr holl fesuryddion. Mae'n ddiddorol nodi fod Teigl ymysg y mwyaf difreintiedig (yn yr 20% uchaf yng Nghymru) o blith y tair ACEHI o safbwynt mynediad i wasanaethau.


<u>Gosod ACEHI yn ôl eu rheng yng Ngwynedd</u>

Dengys y siartiau isod reng pob ardal yng Ngwynedd yn ôl mesuryddion unigol. Fel y nodwyd uchod, cyflwynir y data mewn mynegai yn wrthol; hynny yw, po isaf y sgôr, po uchaf yr amddifadedd; ac i'r gwrthwyneb, po uchaf y sgôr, po isaf yr amddifadedd. Er enghraifft, mae'r siart isod yn dangos fod Bowydd a Rhiw ar reng isel mewn amddifadedd cyffredinol, sy'n golygu ei bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (drwyddi draw) yng Ngwynedd.

Mae'r siartiau yn galluogi i ni ddeall sut mae'r lefelau amddifadedd yn nhair ardal ACEHI Blaenau Ffestiniog yn cymharu gyda gweddill Gwynedd.






## 4 Y Cyd-destun Strategol

Manylir ar y cyd-destun strategol yn y ddogfen *Y Cyd-destun Strategol ar gyfer Ardal y Llechi,* sydd ar wahân. Ond, dyma grynodeb o'r polisïau sydd yn dylanwadu ar weithgareddau yn yr ardal ar hyn o bryd:

**Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Twristiaeth 2020, Llywodraeth Cymru
- Ffordd Cymru, Croeso Cymru
- Blynyddoedd Thematig, Croeso Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru, Cadw
- Ysbrydoli: Ein Strategaeth Creadigrwydd a Chelfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

**Rhanbarthol:**

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd 2018 – 2023, Cyngor Gwynedd
- Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Celfyddydau Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol, Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**Lleol:**

- Ein Heconomïau Lleol, Cwmni Bro Ffestiniog
- Cynllun Economaidd Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru 2016 – 2020, Cyngor Gwynedd

## 5 Prosiectau Adfywio

Prosiect Adfywio Tref Blaenau Ffestiniog 2013

Prif nod Prosiect Adfywio Blaenau Ffestiniog, a dderbyniodd £4.5m o arian Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop, oedd i Flaenau Ffestiniog adennill ei blwyf a sicrhau ei fod yn lle gwych i fyw ynddo ac i ymweld ag o. Mae'r prosiect yn ymgeisio i ddiogelu diwylliant a threftadaeth unigryw'r dref a gwireddu ei photensial, gan wneud y mwyaf o'i hasedau pwysicaf - sef ei phobl, ei hiaith a'i thirwedd.

Ymysg prif lwyddiannau'r prosiect mae:

- Gosodiadau celf yn seiliedig ar dreftadaeth y llechi
- Grantiau gwella blaen siopau
- Ymgyrch farchnata 'Blaenau Ffestiniog – O'r Graig'
- Busnesau newydd yng nghanol y dref
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu sgiliau i NEET
- Creu dros 22 o swyddi
- Creu pum prentisiaeth tymor byr

Daeth y prosiect â newid gwirioneddol i ganol y dref a denodd fewnfuddsoddiad arwyddocaol. Cyn y buddsoddiad, byddai ymwelwyr yn gwario **27 ceiniog y pen** ar gyfartaledd (ffynhonnell: Astudiaeth Achos Adfywio Blaenau Ffestiniog); yn 2016 gwariai ymwelwyr gyfartaledd o **£25 y pen** (ffynhonnell: inews.co.uk).

Llwybrau Beicio Antur Stiniog 2014

Sefydlwyd Antur Stiniog yn 2007 gyda'r bwriad o "Ddatblygu potensial y sector awyr agored yn ardal Ffestiniog mewn ffordd arloesol a chynaliadwy er budd trigolion a'r economi leol". Fel rhan o brosiect ehangach ar gyfer De Gwynedd, cymerodd Antur Stiniog ran ym mhrosiect Canolfan Ragoriaeth Eryri drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, oedd yn werth £4.6m.

Roedd y prosiect yn cynnwys datblygu llwybrau beicio i lawr allt, canolfan wybodaeth gyda chaffi a chyfleuster llogi beiciau, a gwasanaeth ymgodi pwrpasol. Ystyrir fod Antur Stiniog yn un o'r canolfannau beicio i lawr allt gorau yn y DU; mae wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau mawreddog ac wedi ymddangos mewn nifer o raglenni teledu a hysbysebion amlwg.

Yn yr Adroddiad Gwerthuso Prosiect, amcangyfrifwyd fod ymwelwyr i Antur Stiniog wedi creu gwariant net ychwanegol o £542,049 y flwyddyn i'r economi leol.

Ein Treftadaeth, Llechwedd 2015

Bu i Lechwedd elwa o fuddsoddiad o oddeutu £65,000 drwy brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw, a ariannwyd yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy

Lywodraeth Cymru. Roedd y buddsoddiad yn cynnwys paneli dehongli newydd, gwelliannau i adeiladau, goleuadau a throsleisio newydd i'r teithiau tanddaearol.

## 6 Proffil Ymwelwyr/Twristiaeth

Dyma grynodeb o broffil ymwelwyr i Wynedd i roi gwell dealltwriaeth o'r math o ymwelwyr y mae Blaenau Ffestiniog yn eu denu ar hyn o bryd ac y gallai eu denu, yn ogystal â'r cymhelliant a'r rhesymau dros ymweld.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020

Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020 yw:

- ymestyn y tymor ymwelwyr
- cynyddu gwariant ymwelwyr
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd
- gwella'r cymathiad rhwng twristiaeth ac agweddau eraill o fywyd
- gwella'r amgylcheddau naturiol, adeiledig a diwylliannol
- adeiladu a chynnal a chadw isadeiledd a mwynderau cyhoeddus o ansawdd
- darparu swyddi o ansawdd, sy'n talu'n dda ar hyd y flwyddyn, a datblygu sgiliau

Cynhaliwyd arolwg ar-lein fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ac, er mai ar gyfer Gwynedd gyfan y mae'r canfyddiadau, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Flaenau Ffestiniog. Gellir nodi'r rhain fel y prif faterion sydd angen ymdriniaeth:

- Gwell cyfleusterau i ymwelwyr
- Gwell cyfleusterau cyhoeddus, e.e. goruwchadeiledd ymwelwyr, megis llety gwyliau a gweithgareddau penodedig
- Elfennau isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a gofodau cyhoeddus eraill,
- Atyniadau o ansawdd i ymwelwyr
- Darpariaeth parcio
- Gwell gwasanaethau lleol
- Ymddwyn yn fwy cyfeillgar tuag at ymwelwyr
- Gwell siopau a gwell cyfleoedd i siopa

Dylai unrhyw ddatblygiadau twristiaeth ym Mlaenau Ffestiniog roi ystyriaeth i'r amcanion a'r materion a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau bod unrhyw brosiectau ar lefel leol yn dylanwadu ar flaenoriaethau strategol y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013; anghenion ymwelwyr

Dyma **brif ganfyddiadau'**r arolwg o anghenion ymwelwyr a gynhaliwyd yn 2013 (fel rhan o Arolwg Ymwelwyr Cymru):

- Ychydig iawn o wibdeithiau dydd sy'n cael eu trefnu; adroddodd 69% o ymwelwyr dydd i Gymru a holwyd nad oeddynt wedi defnyddio unrhyw wybodaeth wrth gynllunio eu trip i Gymru
- Defnyddiodd 57% o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU wybodaeth ar-lein i gynllunio eu hymweliadau, sy'n cymharu â 18% a ddefnyddiodd ffynonellau ddim ar-lein. Ond, mynegodd nifer o gyfranogwyr bwysigrwydd deunydd wedi'i argraffu yn ystod eu hymweliad; defnyddiodd 38% o ymwelwyr i Gymru a oedd yn aros yn y DU ffynonellau ddim ar-lein yn ystod eu hymweliad, sy'n cymharu â 17% a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein.
- Y dylanwadau pwysicaf ar ddenu ymwelwyr newydd i ardal yw argymhellion a phrofiadau ffrindiau/perthnasau/cyd-weithwyr
- Mae pobl leol, yn arbennig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar le mae ymwelwyr yn mynd. Mae ymwelwyr yn ceisio eu cyngor nhw, ac mae ganddynt fwy o ffydd ynddynt hwy nac mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno. Felly, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr gweithgareddau a baratowyd, neu i gael syniadau newydd.

Mae'n amlwg fod deunyddiau marchnata a gwybodaeth ar-lein a ddim ar-lein yn bwysig i ymwelwyr ac mae'n bwysig ystyried y canfyddiadau hyn wrth adolygu presenoldeb a phroffil ar-lein Blaenau Ffestiniog. Mae'r un peth yn wir wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata i'r dyfodol ac wrth ddatblygu deunyddiau hyrwyddo/wedi'u hargraffu. Gellid ystyried sefydlu cynllun Llysgenhadon gyda phobl leol yn gweithredu fel Llysgenhadon/tywyswyr/ ffynonellau gwybodaeth i ymwelwyr.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2016

Dyma'r **prif ganfyddiadau am broffil ymwelwyr â Gwynedd** a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016:

- Mae mwyafrif yr ymwelwyr â Gwynedd yn byw yn Lloegr (60%)
- Mae canran yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yng Ngwynedd yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae lawer yn uwch na chanran yr ymwelwyr â Chymru gyfan (37%) sy'n dod o weddill y DU
- Mae oddeutu traean (37%) yr ymwelwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â 59% o'r holl ymwelwyr â Chymru; mae 3% yn byw dramor, o gymharu â 4% ar gyfartaledd yng Nghymru gyfan
- Mae Gwynedd yn denu canran uwch o ymwelwyr mwy cefnog ABC1 (48%) o'i gymharu â holl safleoedd Cymru (32%).
- Yn ôl yr arolwg, mae dros draean yr ymwelwyr â Gwynedd (35%) yn ymweld gyda phlant (â'r mwyafrif ohonynt yn blant bach)
- Mae cwta draean (30%) yr ymwelwyr yn gyplau
- Roedd mwyafrif sylweddol (71%) yr ymwelwyr â Gwynedd (o'r rhai a holwyd) wedi dod am y diwrnod, sydd lawer yn is na'r canran ar gyfer Cymru gyfan, sef 88%.
- Mae mwyafrif llethol yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn byw yn Lloegr (82%), a nifer cyfartalog y nosweithiau a arhoswyd yng Ngwynedd yw 5.8, o'i gymharu â 6.0 ar draws Cymru.

Mae ABC1 a C2DE yn raddau cymdeithasol bras; y chwe chategori (A, B, C1, C2, D ac E) ac mae'n ddosbarthiad economaidd-gymdeithasol a gynhyrchir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU. Mae'r categorïau'n rhannu fel a ganlyn:AB - galwedigaethau rheoli, gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolraddC1 - galwedigaethau goruchwylio, clerigol, iau, rheolaethol, proffesiynolC2 - galwedigaethau llaw medrusDE - galwedigaethau llaw lled-fedrus a di-grefft, galwedigaethau di-waith a gradd isaf.

**Y rhesymau dros ymweld, a'r gweithgareddau a wnaed:**

- Nododd mwyafrif (73%) yr ymwelwyr â Gwynedd mai'r rheswm dros ymweld oedd cael mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, sydd yn ganran uwch nac ar gyfer Cymru gyfan (56%)
- Roedd ymwelwyr â Gwynedd hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod yno i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored o'i gymharu â holl ardaloedd Cymru (41% yn hytrach na 25%)
- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg rhyw draean o'r ymwelwyr â'r rhanbarth oedd mynd i'r traeth (34%), ymweld yn gyffredinol (33%) a mynd i barciau gwledig (31%).

**Boddhad, ail-ymweld ac argymell:**

- Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â  Gwynedd yn hynod o fodlon gyda'u hymweliad â Chymru, gydag wyth o bob deg (82%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 (allan o 10) i Gymru fel cyrchfan.
- Roedd tripiau ymwelwyr i/yng Nghymru y tu hwnt i ddisgwyliadau ychydig dros draean o ymwelwyr â Gwynedd -  gyda 37% yn datgan fod yr ymweliad yn well na'r disgwyl
- Dywedodd yr holl ymwelwyr â Gwynedd bron y byddent yn debygol o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol (98%); gyda 92% yn bendant am ddychwelyd a 6% yn debygol o ail-ymweld.

<u>Nifer yr ymwelwyr ac effaith economaidd cysylltiol</u>

2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd (data 2016 yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael). Gwariodd twristiaid dros £1 biliwn yn yr economi leol. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y prif dymor gwyliau, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Ebrill o'i gymharu â blynyddoedd cynharach.

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn 2016, sef cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol; roedd 3.5 m o'r rhain yn aros yma (cynnydd o 5.5% ar 2015), a'r 3.6 m arall yn ymweld am y dydd.

O ran yr effaith economaidd, cafwyd gwariant uniongyrchol £0.75 biliwn yn 2016 (cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol). Canlyniad hyn oedd effaith economaidd o dros £1 biliwn (cynnydd o 4.5% ar 2015). Yn 2016, cyflogwyd 12,725 yn uniongyrchol yn sgil twristiaeth (cynnydd o 1.6% ar 2015); ac chyrhaeddodd cyfanswm cyflogaeth (FTE) 15,557 (cynnydd o 2.1% o'r flwyddyn flaenorol). (Ffynhonnell: data STEAM).

Dyma nifer yr ymwelwyr ag atyniadau a safleoedd ym Mlaenau Ffestiniog yn 2018:

- Gweithgareddau Antur Llechwedd – 180,000
- Rheilffordd Ffestiniog – 113,000
- Treftadaeth Llechwedd – 45,000

(Nid oedd nifer yr ymwelwyr â Llwybrau Beicio Antur Stiniog a Zip World ar gael ar adeg ysgrifennu)

## 7 Isadeiledd a Gwasanaethau

**Bws:** Mae 25 arosfa bws ym Mlaenau Ffestiniog yn cynnig gwasanaethau i Gaernarfon, Criccieth, Dolgellau, Harlech, Llandudno, Llan Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Porthmadog, Portmeirion, Pwllheli a Than-y-bwlch, ac i nifer o bentrefi ar hyd y ffordd. Mae yna fws gwennol preifat i gyrchu teithwyr Rheilffordd Ffestiniog i Lechwedd yn ystod y tymor brig. Mae'r bws cyhoeddus X1 hefyd yn aros ger y fynedfa.

**Trên:** Mae chwe thrên bob dydd rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog ar hyd Lein Dyffryn Conwy (gwasanaeth Trafnidiaeth Cymru). Mae Rheilffordd Ffestiniog hefyd yn gwasanaethu'r dref ac yn rhedeg gwasanaeth lawn rhwng mis Ebrill a mis Hydref. Gall teithwyr ymuno â Rheilffordd Eryri ym Mhorthmadog. Yn dilyn buddsoddiad gan Drafnidiaeth Cymru, bwriedir codi gorsaf newydd ym Mlaenau Ffestiniog.

**Ffordd/Parcio:** Saif Blaenau Ffestiniog ger ffordd yr A470, sef y briffordd sy'n cysylltu Llandudno yn y gogledd a Chaerdydd yn y de. Mae dau faes parcio cyhoeddus yn y dref gyda lle i 197 car; mae hefyd rhywfaint o lefydd parcio arhosiad byr ar y stryd fawr.

**Di-wifr / Rhwydwaith symudol:** Mae di-wifr am ddim ar gael yn llyfrgell Blaenau Ffestiniog, ac mewn nifer o fusnesau yn y dref. Mae cynllun ar y gweill i gyflwyno di-wifr cyhoeddus am ddim ym Mlaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog mewn partneriaeth â Chyngor Tref Ffestiniog.

## 8 Ymgynghori

Ymgynghoriadau Cyhoeddus Blaenorol

Cynhaliwyd nifer o ymgynghoriadau ym Mlaenau Ffestiniog dros y blynyddoedd diweddar, yn arbennig ynglŷn â Chynllun Gwella Canol y Dref. Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau'r ymgynghoriad blaenorol:

Prosiect Cynllunio Go Iawn, 2000

Er bod yr ymgynghoriad wedi digwydd nifer o flynyddoedd yn ôl, pery ei ganfyddiadau allweddol yn berthnasol ac felly rydym wedi cynnwys crynodeb ohonynt.

Cynhaliwyd y prosiect Cynllunio Go Iawn yn Ffestiniog er mwyn gwybyddu datblygiad y Cynllun Gweithredu Cymunedol. Yn hwn rhestrwyd y gwelliannau yr hoffai'r gymuned eu gweld yn digwydd i'r amgylchedd, adnoddau cymunedol, atyniadau hamdden/twristiaeth, darpariaeth tai, yr economi, ffyrdd a chludiant cyhoeddus, a diogelwch cymunedol.

Mynychodd tua 400 o bobl y digwyddiadau ymgynghori a chofrestrwyd oddeutu 2,700 o sylwadau ar gardiau, a 2,100 arall ar walfyrddau. Defnyddiwyd system bleidleisio gyda phinnau i adnabod a datblygu themâu, yn bennaf o gwmpas adnoddau cymunedol, hamdden a thwristiaeth, a'r amgylchedd lleol.

Roedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd yn canolbwyntio ar ddefnydd hamdden, er enghraifft trac beic modur, parc sgrialu/sglefr fyrddio, llwybrau beicio mynydd; ac ar faterion diogelwch cymunedol, er enghraifft, heddweision ar y stryd, camerâu diogelwch, trosedd ceir; a phryderon lleol, megis cadw swyddfeydd post ar agor, a baw ci. Llwyddodd y model hefyd i ddangos lle'r oedd trigolion yn gweld angen am weithredu, er enghraifft Neuadd y Farchnad a Sgwâr Diffwys; a Ffordd Manod, Dolrhedyn a Chae Bryn Coed yn Llan Ffestiniog.

Prosiect Gwella Canol y Dref, 2007

Yn 2007, trefnwyd cyfres o naw digwyddiad ymgynghori gyda'r gymuned, ynghyd ag ymgysylltiadau manwl gyd budd-ddeiliaid a grwpiau mynediad, er mwyn trwytho Prosiect Gwella Canol y Dref. Roedd prif ganfyddiadau'r ymgynghoriadau hyn yn cynnwys:

- Bod 71% o fusnesau o'r farn fod Blaenau Ffestiniog yn lleoliad manwerthu gwael;
- Canran uchel o unedau gwag;
- Prinder o siopau neu gynnig yn gyffredinol;
- Nifer fawr o bobl ifanc yn gadael y dref; ac
- Angen gwneud y mwyaf o'r potensial twristiaeth.

Astudiaeth Asesiad Canol y Dref, 2009

Gwnaed Asesiad Canol y Dref yn 2009 er mwyn asesu *"cryfderau a gwendidau cyfredol yr ardal a'r cyfleodd datblygu masnachol ar gyfer y dref".*

Ymgynghorwyd gyda'r masnachwyr er mwyn hysbysu'r astudiaeth. Roedd y prif ganfyddiadau yn cynnwys:

- Pan holwyd masnachwyr am gryfderau Blaenau Ffestiniog, nodasant ansawdd yr amgylchedd, argaeledd llefydd parcio a chryfderau eraill, â phob un yn sgorio 33%.
- Pan holwyd masnachwyr am wendidau Blaenau Ffestiniog, nododd 40% o'r masnachwyr amrediad/ansawdd gwael y cyfleusterau hamdden ac adloniant; nododd 45% ystod/ansawdd gwael y siopau; a nododd 7.5% fod ansawdd gwael eiddo yn wendid.
- Nid oedd gan 65% o fasnachwyr ym Mlaenau Ffestiniog unrhyw fwriad i ail-fuddsoddi yn eu heiddo; roedd 25% yn dymuno adnewyddu, ehangu neu wella eu hadeiladau; ac roedd 10% yn dymuno symud i eiddo newydd yng nghanol y dref.

I gyd, ymatebodd 38% o ddeiliaid ym Mlaenau Ffestiniog i'r holiadur. Roedd eu prif bwyntiau yn cynnwys:

- Fod lefelau uchel o ddiweithdra wedi cael effaith andwyol ar wario yn y dref; angen mwy o swyddi lleol yn y dref;
- Angen mwy o gymorth i fusnesau lleol; ac
- Angen mwy o atyniadau i ddenu mwy o ymwelwyr i'r dref.

Ein hymgynghoriad

Mae gan Flaenau Ffestiniog rwydwaith hynod gadarn o fentrau cymdeithasol, mudiadau cymunedol a grwpiau diwylliannol. Yn ystod ein cyfnod o ymgynghori cychwynnol gyda'r sefydliadau hyn, fe'n hysbyswyd fod y dref wedi hen ddiflasu ar ymgynghori oherwydd yr ymgynghoriadau blaenorol helaeth i ategu'r amryw fentrau a gynlluniwyd/gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diweddar. Felly, roedd rhwystr i ymgynghori cyffredinol/gweithgareddau casglu gwybodaeth.

Felly, penderfynasom ymgynghori'n drylwyr gyda budd-ddeiliaid lleol er mwyn deall y cyd-destun a'r blaenoriaethau lleol yn well, ac er mwyn adolygu'r cynlluniau sydd ar y gweill a rhai arfaethedig. Diben hyn fyddai adnabod prosiectau addas a fyddai'n canolbwyntio ar y dref ac yn ennyn ei chefnogaeth. Rydym yn argymell i Gyngor Gwynedd roi'r syniadau ar gyfer y prosiectau hyn ar brawf (fe'u rhestrir yn y Cynllun Gweithredu cysylltiedig) gyda'r gymuned ehangach unwaith y mae'r syniadau wedi eu datblygu'n ddigonol i alluogi trafodaeth adeiladol.

Ymgynghorwyd gyda'r budd-ddeiliaid a ganlyn:

- Antur Stiniog
- Blaenau Bendigedig
- CellB/ Gwallgofiaid
- Siambr Fasnach a Thwristiaeth
- Cwmni Bro Ffestiniog
- Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog
- Cyngor Tref Ffestiniog
- Chwareli Llechi Llechwedd
- Welsh Slate/Breedon
- Y Dref Werdd

Canfyddiadau ein hymgynghoriad

Yma, crynhoir y prif faterion datblygu cymunedol a ddaeth i'r amlwg yn ein gwaith ymgynghori.

Mae ymdeimlad cyffredinol y dylid newid trywydd yr adfywio a'r datblygu er mwyn creu cyfleoedd newydd yn nhref Blaenau Ffestiniog ar gyfer ei thrigolion, yn hytrach na chanolbwyntio ar dwristiaeth fel yr unig ffordd o greu incwm.

**Datblygu sgiliau, meithrin galluedd, denu a chynnal medrusrwydd** – mae'r gwaith datblygu y mae Cwmni Bro yn ei wneud yn canolbwyntio ar fynediad i sgiliau ac adnabod cyfleoedd busnes a chyflogaeth newydd, yn arbennig i bobl ifanc, fel bod modd iddynt fyw a gweithio ym Mlaenau ni waeth am y diwydiant twristiaeth. Dylid hyrwyddo hyn.

**Busnesau bychain; cefnogi a datblygu** – mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi/yn canolbwyntio ar brosiectau cyfalaf mawr sy'n dod a chyfleoedd cyflogi sylweddol; mynegwyd y dylid rhoi cefnogaeth i fentrau llai a busnesau lleol mwy cynaliadwy.

**Gwelliannau i ganol y dref** – awgrymwyd y dylai busnesau bychain eu hunain wneud mwy i wella'r stryd fawr. Nodwyd fod galw cynyddol am siopau ym Mlaenau Ffestiniog ond fod prinder cyflenwad oherwydd bod nifer o berchnogion sydd wedi ymddeol yn dal i fyw uwchben eu siopau.

Bydd adeilad newydd yr orsaf drenau (ar gyfer Rheilffordd Ffestiniog a'r brif lein) yn creu canolbwynt newydd i'r dref ac yn ysgogi ailasesiad o lif trafnidiaeth a phobl drwy'r dref, gan ddod â chyfleoedd newydd i alluogi i'r dref elwa i'r eithaf.

**Yr amgylchedd adeiledig** - dylid ystyried datblygu cyfleusterau newydd a defnyddio hen adeiladau gweigion yng nghyd-destun dod a budd i'r gymuned leol.

**Dehongli hanes cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol y dref** - mynegwyd pryder gan aelodau Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog y gallai'r gwaith y maent yn ei wneud i ddehongli hanes lleol fynd yn angof, gan mai dim ond un agwedd o'r dreftadaeth leol y mae atyniadau ymwelwyr yn ei ddehongli. Er enghraifft, mae Llechwedd yn dehongli'r dreftadaeth ddiwydiannol ond nid yw'n trafod treftadaeth ddiwylliannol na chymdeithasol y dref a'i phobl. Pwysleisiwyd, hefyd, fod nifer o chwareli eraill (Manod, Maenofferen, Cwm Orthin) wedi chwarae rhan arwyddocaol yn y Chwyldro Diwydiannol ond mai ychydig iawn o waith dehongli a wneir o'u cyfraniad hwy.

Prif nod y gymdeithas yw cael cartref newydd, parhaol ar gyfer ei harddangosfa a fyddai'n galluogi iddi gynyddu ei maes gorchwyl (gallai fod ar agor am gyfnod hirach o'r flwyddyn) a chael gofod arddangos mwy. Mae'n awyddus iawn i gomisiynu astudiaeth dichonoldeb a fyddai'n ystyried lleoliad, deunyddiau dehongli, rheoli'r casgliadau, staffio a chyfleoedd ariannu newydd yn y dyfodol.

**Cyfleusterau twristiaeth ac ymwelwyr** – mae Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog wrthi'n paratoi i ran o'i harddangosfa ymddangos yn adeilad Antur Stiniog, sydd ar agor drwy gydol y flwyddyn a lle mae canolfan wybodaeth/caffi /siop. Dewis arall y dylid ei ymchwilio yw'r posibilrwydd o gael gofod dehongli yn rhan o adeilad newydd yr orsaf.

**Isadeiledd, cysylltiadau**– mae'n amlwg o'n hymgynghoriadau fod cryn bryder am y diffyg cysylltedd rhwng Ceudyllau Llechwedd/Zip World a'r dref ei hun, sydd yn gwaethygu oherwydd y drefn mynediad a'r diffyg isadeiledd rhwng safle Llechwedd a'r dref. Mae'n bosibl ymweld â'r atyniadau heb weld Blaenau Ffestiniog, ac mae effaith economaidd cysylltiol Zip World yn bennaf ddod â budd i'r sector lletya yn yr ardaloedd y tu hwnt i'r dref.

Yn sgil hyn, mae ymdeimlad fod rhwyg wedi datblygu rhwng y gymuned a safle Llechwedd, ac mae'r gymuned o'r farn fod y pwyslais ar dreftadaeth ddiwydiannol a chymdeithasol y diwydiant llechi yn annigonol ac yn anghymesur o isel. Mae hyn yn hynod berthnasol o ystyried ei gyfraniad at sefydlu'r dref fel canolfan lewyrchus. Credir fod adeiladau a oedd

unwaith yn llawn bywyd yn cael eu hesgeuluso wrth i'r sylw symud i fyny'r allt at Lechwedd. Gallai'r rhwyg canfyddedig hwn arwain at ddrwgdeimlad o du'r gymuned gan ymwreiddio'n ddyfnach os na chaiff ei reoli'n ofalus.

Daeth yn amlwg fod yma gyfle i (ail-)greu rhwydwaith newydd o fynedfeydd a mannau dehongli ar gyfer ymwelwyr a thrigolion, ac y gellid adfer yr hen lwybrau a ddefnyddiai'r chwarelwyr rhwng y dref a Llechwedd ac adfer rhan o dreftadaeth y dref. Aethpwyd i'r afael â'r mater o gysylltedd yng nghais (aflwyddiannus) diweddar Cyngor Tref Ffestiniog i gynllun Strydoedd Unigryw Arloesi Gwynedd Wledig. Roedd yn cynnwys nifer o syniadau am wella cysylltedd, yn arbennig ynghylch y diffyg arwyddion i gyfeirio ymwelwyr sy'n cyrraedd yr orsaf fysiau a'r rheilffordd.

Cydiodd CellB/Gwallgofiaid yn thema llwybrau'r chwarelwyr fel prosiect creadigol posib. Gwnaethpwyd yr ymchwil i'r hen lwybrau a'r incleins ar y cyd â'r gymdeithas hanes leol a Chyngor Tref Ffestiniog, ac anogodd hyn ymgynghori pellach, yn anffurfiol a rhwng y cenedlaethau, gan y gymuned ei hun. Gan ddefnyddio mapiau sydd eisoes yn bodoli ac elfennau gweledol ar gyfer llwybrau newydd/mynedfeydd newydd, bydd hen lwybrau'r chwarelwyr yn cael eu holhrain; a chanfyddir sut oedd y chwarelwyr yn cyrraedd y gwaith; y straeon a'r hanesion; dysgu enwau'r llwybrau; a deuir i ddeall sut mae pobl ifanc heddiw yn symud o gwmpas eu tref.

Isod nodir y blaenoriaethau datblygu a ddaeth yn amlwg yn ystod ein hymgynghoriad:

- Gwella'r drefwedd ymhellach a chynnig profiad mwy cynhwysol i'r ymwelydd
- Creu cyfleoedd newydd i ddehongli hanes diwylliannol a chymdeithasol y dref
- Manteisio ar ddatblygiad yr orsaf newydd/hwb trafnidiaeth
- Datblygu mwy ar y busnesau bychain yn y sector dwristiaeth sydd ddim yn ddibynnol ar wariant cyfalaf enfawr
- Annog busnesau bychain i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'r dref a mentrau marchnata ar y cyd
- Sicrhau fod Blaenau Ffestiniog yn elwa o unrhyw gynnydd mewn gweithgaredd yn sgil y broses ymgeisio am statws treftadaeth y byd.

## 9 <u>Archwiliad o'r Gymuned</u>

Cynhaliwyd archwiliad o'r gymuned er mwy cael gwell dirnadaeth o'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr, sef, archwiliad o'r tu allan o Flaenau Ffestiniog fel cymuned.

<u>Cynrychiolaeth o'r Gymuned</u>

Yn yr adran hon rydym yn rhoi braslun o adnoddau cymunedol a mudiadau Blaenau Ffestiniog, er mwyn creu trosolwg o'r ddarpariaeth sydd ar gael i'r gymuned leol.

**Cyngor Tref Ffestiniog** - mae'r cyngor yn cynrychioli Blaenau Ffestiniog a phentref Llan Ffestiniog. Mae gan yr ardal boblogaeth o 4,875 (cyfrifiad 2011), sy'n golygu mai hwn yw'r

cyngor mwyaf ond dau yng Ngwynedd (ar ôl Bangor a Chaernarfon). Mae yma 16 cynghorydd yn cynrychioli pum ward: Tanygrisiau, Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen, Conglywal, a Chynfal a Theigl.

**Cwmni Bro Ffestiniog** – cymdeithas o dair ar ddeg o fentrau cymunedol sydd yn darparu amrediad o weithgareddau er mwyn hybu datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal: Antur Stiniog; Barnardos; Cyfeillion Croesor; CellB/Gwallgofiaid; Opra Cymru; Deudraeth Cyf; GISDA; Seren cyf; Pengwern Cymunedol; Trawsnewid; Y Dref Werdd; ac Ysgol y Moelwyn/ Y Ganolfan.

Gyda'i gilydd maent yn darparu llu o weithgareddau gan gynnwys rhedeg gwesty, siopau, bwytai, canolfan hamdden, canolfan gelf a chrefft, beicio mynydd, rhandiroedd, opera, glanhau afonydd, gweithio gydag oedolion ag anghenion ychwanegol, a gwaith ieuenctid. Eu nod pennaf yw gwella datblygiad amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal.

Yn yr ardal hon y mae'r nifer fwyaf o fentrau cymdeithasol y pen yng Nghymru, gyda'r aelodau'n cyflogi oddeutu 150 o bobl rhyngddynt. Dangosodd dadansoddiad diweddar o effaith economaidd y mentrau fod canran uchel o'u hincwm yn cael ei gynhyrchu trwy fasnachu. , i raddau helaeth, yn aros/cael ei ail-fuddsoddi yn yr ardal leol: o53% o'r £1.5 miliwn a gaiff ei wario ar gyflogau yn aros yn lleol ac yn cael ei ail-fuddsoddi yn yr economi leol.

Mae'r mudiadau cymunedol yma yn weithgar ym Mlaenau Ffestiniog:

- Blaenau Ymlaen
- BROcast Ffestiniog
- Siambr Fasnach a Thwristiaeth
- Cyfeillion Cwmorthin
- Men's Sheds a Craft Shed
- Merched y Wawr: Blaenau Ffestiniog/Llan Ffestiniog
- Cymdeithas Eryri
- Sefydliad y Merched (WI): Blaenau Ffestiniog/Llan Ffestiniog
- Y Ganolfan/Ysgol y Moelwyn.

Mae'r mudiadau diwylliannol a threftadaeth hyn yn weithgar yn y dref:

- CellB/Gwallgofiaid;
- Côr y Brythoniaid
- Côr y Moelwyn
- Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog
- Seindorf yr Oakeley.

Mae'r lleoliadau celfyddydol a diwylliannol hyn yn y dref:

- Bridge Café
- Llyfrgell Blaenau Ffestiniog/Canolfan Maenofferen
- CellB/Sinema a bar
- Melin Pant yr Ynn/Falcon Hildred.

## 10 Asesiad twristiaeth ac ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn sydd gan Flaenau Ffestiniog i'w gynnig i'r ymwelydd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm â datblygu'r dref at y dyfodol.

Yn y bôn, Stryd yr Eglwys a'r Stryd Fawr, sef y prif lonydd drwy'r dref, yw canol y dref. Adeiladau carreg gyda thoeau llechi sydd yma'n bennaf, sy'n nodweddiadol o'r rhan hon o Ogledd Cymru, ac maent mewn cyflwr cymharol dda. Mae'r palmentydd yn gul, sydd yn golygu fod cerddwyr yn tueddu i gamu mewn i'r ffordd ar adegau prysur; does dim llawer o wyrddni na phlanhigion i ysgafnhau'r amgylchedd gerwin.

Cyrraedd

**Argraff gyffredinol:** mae'r pafin o flaen maes parcio Diffwys, sy'n gwneud defnydd o'r llechi amryliw, yn ddeniadol a chyda'r pileri llechen yn cyfrannu at ymdeimlad o gyrraedd.

**Ar y rheilffordd/bws:** wrth gyrraedd yn yr orsaf drenau/bws yng nghanol y dref, nid oes unrhyw arwyddion i gyfeirio'r ymwelydd na phaneli dehongli. Fodd bynnag, mae arwydd ar gyfer y bws wennol i Geudyllau Llechwedd (sydd ddim ond yn rhedeg yn ystod y tymor ymwelwyr).

**Mewn car:** wrth gyrraedd prif faes parcio Diffwys, mae arwyddion clir yn eich cyfeirio at y dref ac at nodweddion eraill megis llwybrau cerdded o gwmpas y dref. Ond, mae'n anodd gyrru i lawr y Stryd Fawr oherwydd ei fod yn gul; mae prinder llefydd parcio ar y stryd yn ei gwneud hi'n anodd taro heibio i siop/caffi, yn arbennig i'r henoed/anabl a allai ei chael yn anodd cerdded ym mhell o'r maes parcio.

**Cerdded:** ym maes parcio Diffwys ceir arwyddion i'r llwybrau cerdded o gwmpas y dref. Gellir lawr lwytho teithiau cerdded tywys yn y dref a thu hwnt o wefan Blaenau Ffestiniog (www.blaenauffestiniog.org). Maent yn eglur ac yn cynnwys peth gwybodaeth am nodweddion hanesyddol a hanes cymdeithasol.

Gellir hefyd lawr lwytho canllaw .pdf ac MP3 y Llwybr Barddoniaeth - cyfres o arysgrifau yn y pafin ar hyd y Stryd Fawr. Mae hwn yn cyflwyno gwybodaeth am gyfeiriadau diwylliannol, yr iaith Gymraeg a barddoniaeth. Mae Llwybr Llechi Eryri yn mynd drwy'r dref ac mae rhywfaint o wybodaeth dehongli ar y wefan honno.

Gwybodaeth i ymwelwyr: cyfeiriadedd/arwyddion/gwybodaeth i dwristiaid

Heblaw am un panel gwybodaeth (gweler isod), nid oes unrhyw wybodaeth yng nghanol y dref am hanes a daearyddiaeth y dref; er enghraifft, adeiladau pwysig, atyniadau, nodweddion diddorol, neu fap o dirwedd yr ardal.

Mae'r unig banel gwybodaeth yn y dref o flaen adeilad Antur Stiniog (gyferbyn â blaengwrt yr orsaf), sy'n gweithredu fel canolfan wybodaeth. Mae'r staff yn gymwynasgar ac yn wybodus am y dref a'r ardal. Mae taflenni gwybodaeth hefyd ar gael yn ardal y caffi. Mae siop lyfrau'r Hen Bost, ymhellach lawr y Stryd Fawr, hefyd yn gwerthu llyfrau tywys lleol.

Cyfleusterau

**Cyfleusterau Cyhoeddus:** mae'r toiledau ym maes parcio Diffwys mewn adeilad deniadol, sef hen derfynfa rheilffordd y chwarel. Y tu mewn, mae'r adeilad wedi'i addurno gyda graffigwaith gafaelgar a diddorol sy'n darlunio'r dref a'r ardal ehangach i'r ymwelydd drwy gyfleu tirwedd y llechi a'r iaith Gymraeg ar ei waliau.

**Caffis/bwytai**: mae'r dewis o gaffis/bwytai yn gyfyngedig, llefydd bwyd brys sydd yma yn bennaf sydd ar gau amser cinio [yn y gaeaf].

**Bwyty/bar y Chwarelwr:** yn agos at yr orsaf mewn hen fanc, gyda dodrefn llechi yn yr ardd gwrw a siop fechan. Y bwyd a'r gwasanaeth yn iawn.

**Tŷ Gorsaf:** yn gyfleus ger y fynedfa i'r orsaf drenau/bysus; bwydlen tŷ tafarn, er yn ystod gwyliau'r Pasg, roedd y gegin ar gau ar gyfer gwaith adnewyddu ar gyfer tymor yr haf.

**Caffi Antur Stiniog :** dewis da o gacennau a choffi/te, ond dim byrbrydau poeth.

**Y Gorlan:** caffi hynod gyfeillgar ar y Stryd Fawr; bwyd a theisennau cartref, ar agor amser cinio.

Canol y Dref

Heblaw am yr elfennau o gelf gyhoeddus a ddisgrifiwyd eisoes, mae'r Stryd Fawr yn edrych braidd yn llwm a di-raen; mae llawer o siopau gweigion a nifer o adeiladau mawr mewn cyflwr gwael, gan gynnwys Neuadd y Farchnad, tafarndai a'r hen adeilad Woolworths.

Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am hanes ac arwyddocâd adeiladau'r dref; nid oes unrhyw ymgais i ddenu ymwelwyr i grwydro'r dref, ac mae'r dirwedd yn gwneud hynny'n waeth – mae angen codi ymwybyddiaeth ymwelwyr o'r hyn sydd ar gael ar ben arall y Stryd Fawr, neu ni fydd digon i'w cymell i gerdded yr holl ffordd. Oherwydd y dirwedd, nid oes llawer o lefydd lle gallwch weld y dref yn ei chyfanrwydd a gwerthfawrogi'r lleoliad trawiadol. Mae diffyg gwybodaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ymwelwyr yn gadael heb weld y llefydd yma.

Atyniadau a Gweithgareddau i ymwelwyr

Dyma'r **atyniadau i ymwelwyr** yr ydym wedi'u nodi yn y dref a'r ardal leol:

- **It's a Small World** - canolfan gweithgareddau dan do.

- **Ceudyllau Llechi Llechwedd** – teithiau tywys i'r Gloddfa Fawr (rhan ddyfnaf y safle), sy'n dehongli treftadaeth Fictoraidd y chwareli. Mae Llechwedd ar restr deg atyniad gorau Twristiaeth Gogledd Cymru.
- **Zip World** – agorwyd yn 2014. Mae'n cynnig tri phrofiad antur: Zip World Titan; Bounce Below, antur rhwydau tanddaearol; The Caverns – sy'n lle i hedfan, dringo a chroesi'r awyr ar wifren sip, pontydd rhaff, via ferrata a thwneli. Mae cynlluniau gan Zip World i agor atyniad mawr arall yn 2020.
- **Go Below -** safle lloeren i Go Below Rhaeadrau Conwy, sy'n antur danddaearol yn chwarel Cwmorthin.
- **Rheilffordd Ffestiniog** – taith 13.5 milltir odidog o fynyddoedd Blaenau Ffestiniog i lawr 700 troedfedd i Borthmadog, lle gall teithwyr gysylltu â Rheilffordd Eryri.
- **Llwybr Llechi Eryri** – llwybr troed 85 milltir o hyd o amgylch ardaloedd y chwareli, sy'n mynd drwy ganol Blaenau Ffestiniog. Datblygwyd y llwybr yn ddiweddar gyda chymorth nifer o bartneriaid lleol.
- **Llwybrau Beicio Lawr Allt Antur Stiniog** - saith llwybr beicio lawr allt yn safle Llechwedd â gwasanaeth ymgodi. Derbyniodd arian yn ddiweddar gan Croeso Cymru i ddatblygu tri llwybr beicio newydd.

Dyma **safleoedd a gweithgaredd diwylliannol a threftadol** yr ydym wedi'u nodi yn y dref a'r ardal leol:

- **Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog** – mae'n cynnal arddangosfa dros fisoedd yr haf o luniau, hanesion a gwrthrychau diddorol yn Nhŷ Mawddach ar y Stryd Fawr.
- **CellB** - bar, caffi, hostel a sinema; mae hefyd yn cynnal arddangosfeydd gan artistiaid lleol a Grŵp Celf Blaenau.
- **Llwybr Barddoniaeth y Dref** - dywediadau lleol, termau unigryw'r chwarel, cyfeiriadau hanesyddol a dyfyniadau gan artistiaid lleol, beirdd, llenorion, cerddorion wedi eu harysgrifio ar y strydoedd, yn cyfleu hanes bywiog Blaenau Ffestiniog a'i hunaniaeth ddiwylliannol unigryw.
- **Teithiau tywys** – gellir lawr lwytho llwybrau ar MP3 o wefan Blaenau Ffestiniog, www.blaenauffestiniog.org
- **Melin Pant-yr-Ynn** – Gradd II rhestredig. Melin lechi hynaf y dref sy'n dal i sefyll, a nawr yn gartref i'r artist Falcon D Hildred. Mae ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr haf drwy apwyntiad yn unig. Ceir arddangosfa o luniau dyfrlliw yn darlunio'r dref hanesyddol, y chwareli a'r dirwedd drawiadol; ac mae hefyd yn cynnig cyrsiau a gweithdai celf.
- **David Nash** – artist sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ac sy'n byw ac yn gweithio yma; yn achlysurol mae'n cynnal Stiwdio Agored.
- **Canolfan Maenofferen** – llyfrgell a gofod arddangos.

Dyma **rai o'r digwyddiadau** yr ydym wedi'u nodi a gynhelir yn y dref a'r ardal leol:

- **Digwyddiadau**: Penwythnos Fictoraidd – Rheilffordd Ffestiniog, mis Hydref; Ras y Moelwyn – ras fynydd, mis Mai; Gŵyl Lechi, digwyddiad arbennig yn 2018, a oedd yn cynnwys Gŵyl Car Gwyllt, gŵyl gerddoriaeth Gymraeg, digwyddiad 5/6 Gorffennaf 2019).

Darpariaeth llety

Llety a restrir ym Mlaenau Ffestiniog a'r ardal leol:

- Chwe gwely a brecwast
- tri byncws
- pedwar gwesty bach
- chwe llety hunan-ddarpar i hyd at bump o bobl (glampio)
- un hostel
- tri gwesty
- un dafarn
- 24 uned hunan-ddarpar.

Mae'r ddarpariaeth llety yn y dref yn gyfyngedig, ond mae llawer mwy ar gael yn yr ardal gyfagos (o fewn dalgylch o ddeng milltir); bydd gwesty pedair seren sy'n agor yn 2020 yn ategu'r ddarpariaeth ym Mlaenau Ffestiniog.

Mae arolwg stoc gwlâu yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a bydd yr adran hon yn cael ei diweddaru unwaith y bydd y canlyniadau ar gael.

Proffil ar-lein Blaenau Ffestiniog

Mae'r wefan www.blaenauffestiniog.org yn ymwneud yn benodol â Blaenau Ffestiniog, ei hanes, ei datblygiad, a'r cynnig sydd yno. Mae'n adnodd defnyddiol, yn arbennig fel man cychwyn ar gyfer ymchwil, ac mae'n hynod glir a llawn gwybodaeth. Serch hynny, mae'n ymddangos nad yw wedi ei diweddaru, sydd yn tanseilio ei hygrededd.

Heblaw am y wefan hon, ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar-lein am y dref, ei chynnig, a'i chyfleusterau. Mae hon yn amlwg yn ystyriaeth bwysig, yn arbennig o ystyried canfyddiadau'r Arolwg Anghenion Ymwelwyr (a amlinellwyd uchod), ac mae'n gwrthgyferbynnu â phresenoldeb ar-lein cryf a sefydledig atyniadau ymwelwyr y dref, megis Llechwedd, Antur Stiniog a Zip World. Mae'r cyferbyniad hwn yn atgyfnerthu'r rhwyg canfyddedig rhwng y dref a'r atyniadau – gallai proffil ar-lein gwell i'r dref ddenu mwy o ymwelwyr i Flaenau Ffestiniog.

Adolygiadau gan ymwelwyr

Yn ogystal â bod yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i ddarpar ymwelwyr (yn arbennig drwy adolygiadau ar-lein), gall adolygiadau gan ymwelwyr roi arweiniad adeiladol ar sut i wella. Rydym wedi dadansoddi rhai adolygiadau cadarnhaol, negyddol a chymysg o Flaenau Ffestiniog, ac wedi ymgorffori ein canfyddiadau yn ein dadansoddiad SWOT sydd yn dilyn. Mae'r adolygiadau hyn yn codi pwyntiau gwerthfawr er ystyriaeth, ac yn galluogi i ni ddeall sut mae ymwelwyr a darpar ymwelwyr yn gweld Blaenau Ffestiniog. Dyma grynodeb o'r adolygiadau:

Nododd adolygydd cadarnhaol fod "yr ardal yn wych ac yn amrywiol, ac yn addas i bob oedran" (llythyr at Gyngor Gwynedd). Mae'r ffaith ei bod hi'n ardal Gymraeg ei hiaith a

"hynod o Gymreig" wedi'i nodi fel ffactor gadarnhaol gan nifer o adolygwyr; tybiwn mai am fod hyn yn dod â hynodrwydd a dilysrwydd. Yn wir, cafodd ei ddisgrifio fel lle sy'n cynnig profiad "anarferol a diffuant" (Trip Advisor). Dywedodd un arall fod gan y dref "lawer o bensaernïaeth ac adfeilion treftadaeth ddiwydiannol, y rheilffordd, y ceudyllau, ac ati." (Trip Advisor).

Mae'r llwybrau troed lleol a'r bryniau, a'u hygyrchedd o'r dref, yn beth cadarnhaol; ac fe nodir fod y lleoliad yn wych ar gyfer cerdded neu deithio o gwmpas, ac nad oes wir angen car. Mae'r dirwedd yn cael ei chanmol, ond fod dylanwad elfennau dynol ar y dirwedd yn apelio at rai ond ddim at eraill.

Mae treftadaeth a diffuantrwydd yr ardal yn cael eu pwysleisio gan un adolygydd, a aeth ati i ddweud fod gan yr ardal: 'droeon a golygfeydd, coedwigoedd, llynnoedd, rhaeadrau ac afonydd anhygoel. A bod Blaenau Ffestiniog yn anodd ei guro am weithgareddau awyr agored - o deithiau cerdded tawel yn y coedwigoedd i fynydda egnïol, mae yma rywbeth i bawb.' (Trip Advisor).

Mae adolygiadau negyddol wedi nodi fod y prinder gwybodaeth i dwristiaid yn y dref yn golygu ei bod hi'n anodd darganfod yr hyn sydd ar gael, a bod prinder llefydd parcio a chaffis/bwytai yn cyfyngu ar yr amser gaiff ei dreulio yno. Roedd un adolygydd yn teimlo ei bod yn dref waith ac nad oedd naws wyliau yn perthyn iddi; fe'i disgrifiwyd fel "lle rhy arw i fod yn gyrchfan gwyliau" (Trip Advisor). Fe'i disgrifiwyd hefyd fel "un o'r profiadau twristiaeth tebycaf i draed moch yn unrhyw le yn y DU" (Trip Advisor) oherwydd diffyg cyfleusterau a gwybodaeth.

Yn ôl adolygydd mwy diplomateg: "Mae'r dref fel Marmite. Mae'r rhai sy'n ei deall yn ei charu, ond nid felly y mae i'r rhai sydd ddim". (Trip Advisor)

## 11 <u>Asesiad o'r Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol</u>

Rydym wedi cynnal asesiadau o'r dreftadaeth adeiledig, gan ystyried y meini prawf isod:

**Diogelwch Statudol :**

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd, I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion mewn Ardaloedd Cadwraeth

**'Statws mewn perygl':**

- Fel y'u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ar gyfer pob ardal unigol. Dyma'r dosbarthiadau:
    - Mewn perygl
    - Bregus
    - Ddim mewn perygl
- Wedi ei seilio ar archwiliad byr o'r tu allan (gan nodi a yw'r defnydd yn amlwg, a yw'r adeilad yn ymddangos yn anghyfannedd neu'n fregus)

**Cyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi:**

- Y pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi'r ardal (er nad yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth nac ymchwil ar adeiladau na safleoedd unigol).
- Adborth o'r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle.
- Cynnig detholiad cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi'r diwydiant llechi a'i chymunedau.

**Potensial adfywio a dehongli:**

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio'r ardal, darparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Trafodwn ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 3. Ceir crynodeb o'r prosiectau amgylchedd adeiledig wedi eu blaenoriaethu, ynghyd â'n hargymhellion, yn Adran 13 (casgliadau ac argymhellion).

## 12 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, daeth yn amlwg fod Blaenau Ffestiniog yn wynebu rhai heriau sylfaenol, a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r dref am wneud y mwyaf o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Yma, crynhown yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hadnabod a'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi i'r dref fynd i'r afael â nhw.

Dadansoddiad SWOT (CGCB)

Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Blaenau Ffestiniog o safbwynt yr ymwelydd ac aelodau'r gymuned, ac mae'n crynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleodd a bygythiadau'r cynnig i ymwelwyr a'r ddarpariaeth i drigolion:

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| **CYMUNED** | **CYMUNED** |
| • Cymdeithas Hanes leol sydd wedi hen ennill ei phlwyf<br>• Nerth y gymuned, hunaniaeth, iaith Gymraeg, llenyddiaeth a cherddoriaeth<br>• Ymdeimlad cryf o falchder dinesig<br>• Rhwydwaith gref iawn o fentrau cymunedol/cymdeithasol (a gydlynir gan Gwmni Bro Ffestiniog)<br>• Grŵp o bobl ifanc egnïol sydd yn weithgar yn y gymuned leol | • Agwedd geidwadol tuag at ddehongli yn golygu nad yw pobl leol yn ymddiddori yn eu treftadaeth<br>• Mynediad cyfyngedigi fusnesau llai yn y sector twristiaeth i fuddsoddiad ac arian cyfalaf |
| **TWRISTIAETH** | **TWRISTIAETH** |
| • Diwylliant unigryw a hygyrch<br>• Ymdeimlad o le / yr iaith Gymraeg/ diffuantrwydd cymuned Gymreig cefn gwlad | • Prinder adnoddau dehongli ac arwyddion i hwyluso ymweliadau â'r dref, ac i hyrwyddo'r dreftadaeth bensaernïol a chymdeithasol |

| | |
|---|---|
| • Tirwedd a golygfeydd eithriadol<br>• Atyniadau twristiaeth sefydledig gyda chysylltiad â safleoedd treftadaeth llechi: Llechwedd, Rheilffordd Ffestiniog<br>• Canolfan dda ar gyfer gwyliau cerdded/beicio<br>• Adnoddau chwaraeon awyr agored a digwyddiadau cysylltiedig o ansawdd uchel<br>• Cyrchfan i weithgareddau ac i gael llonyddwch a thawelwch<br>• Lleoliad ar y brif ffordd rhwng y gogledd a'r de (A470) – yn gyfleus i Ganolbarth a Gogledd Orllewin Cymru<br><br>**TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Isadeiledd cludiant cyhoeddus da – bws, rheilffordd.<br>• Gofod cyhoeddus gwell o ganlyniad i'r gwaith diweddar i wella canol y dref<br>• Nodweddion hanesyddol / pensaernïaeth unigryw<br>• Profiad helaeth o drefnu digwyddiadau a gwyliau llwyddiannus<br>• Y diwydiant twristiaeth yn dod â gwariant gan ymwelwyr yn ei sgil | • Mae'r Ganolfan Groeso yn siop Antur Stiniog yn adnodd gwerthfawr, ond nid yw'n amlwg i ymwelwyr. Byddai canolbwynt Gwybodaeth i Dwristiaid wedi'i arwyddo'n glir yn fanteisiol<br>• Dewis cyfyngedig o gaffis/bwytai/siopau yng nghanol y dref, heb glwstwr o siopau nodedig, sy'n golygu cynnig manwerthu gwan<br>• Dibyniaeth ar sector hunan-ddarpar rhatach; diffyg llety â gwasanaeth o ansawdd uchel<br><br>**TWRISTIAETH A CHYMUNED**<br>• Diffyg gweledigaeth gyffredinol i'r strategaeth dehongli – gwella cyfeiriadedd i ymwelwyr/ ymddangosiad y dref<br>• Problemau gyda chynaliadwyedd tymor hir adnoddau dehongli (costau, staffio, curadu, polisïau cadwraeth)<br>• Dibyniaeth ar sector dwristiaeth dymhorol<br>• Angen gwell cyfleusterau cyhoeddus/i ymwelwyr<br>• Prinder llefydd parcio yn rhwystro trigolion/ymwelwyr rhag treulio mwy o amser yn y dref<br>• Gan nad yw'n hawdd crwydro ar droed drwy/o amgylch y dref, mae diffyg cydlyniad<br>• Yr economi gyda'r nos yn wan<br>• Nifer o adeiladau gwag<br>• Dim cysylltiad clir rhwng safle Llechwedd â'r dref<br>• Argraff/delwedd y dref |
| **<u>CYFLEOEDD</u>**<br>**CYMUNED**<br>• Ymdeimlad newydd o berchenogaeth o'r dreftadaeth ddiwydiannol, gymdeithasol a diwylliannol; cyfle i gynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn gweithgareddau treftadaeth<br>• Creu cyfleodd i wella sgiliau a mynediad i hyfforddiant<br>• Gwella'r cydweithio rhwng sectorau a chyfle i farchnata'n fwy cydlynol<br>• Cynyddu nifer yr ymwelwyr i ganol y dref a'r gwariant cysylltiol | **<u>BYGYTHIADAU/HERIAU</u>**<br>**CYMUNED**<br>• Etifeddiaeth leol yn ddibynnol ar ymrwymiad gwirfoddolwyr<br>• Anodd denu pobl ifanc i gymryd rhan yn y sector dreftadaeth<br>• Cynaliadwyedd economaidd a dirywiad cyffredinol y trefi gwledig<br>• Hinsawdd wleidyddol ac economaidd ansicr<br>• Denu a chadw pobl ddawnus (yn arbennig pobl ifanc) |

| | |
|---|---|
| **TWRISTIAETH**<br>• Ei lleoliad ar yr A470, ar y brif ffordd rhwng y de a'r gogledd, a'i safle strategol ym Mharc Cenedlaethol Eryri a chyrchfannau eraill<br>• Ffordd Cymru: tri llwybr strategol newydd – Ffordd Cambrian; Ffordd yr Arfordir; Ffordd Gogledd Cymru, a ddatblygwyd gan Croeso Cymru – cyfle allweddol i hyrwyddo Blaenau Ffestiniog fel cyrchfan i gerddwyr.<br>• Llwybr Llechi Eryri: gweithgaredd marchnata a hyrwyddo gwell; cyfle i ddatblygu cyfleusterau i gerddwyr yn yr ardal<br>• Creu llwybrau newydd i ail-gysylltu'r dref â'i chwareli<br>• Blynyddoedd thematig Croeso Cymru<br>• Strategaethau dehongli newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth i ymwelwyr<br>• Datblygu llety o ansawdd ar gyfer ystod o gyllidebau | **TWRISTIAETH**<br>• Sefydliadau cenedlaethol yn hawlio perchenogaeth dros y dehongliad o'r dreftadaeth leol<br>• Problemau i gynaladwyedd tymor hir ynghylch dehongli (costau, staffio, curadu, polisïau cadwraeth) |
| **TWRISTIAETH A'R GYMUNED**<br>• Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd<br>• Manteisio ar yr hwb cludiant newydd a all ddod yn sgil y buddsoddiad yng ngorsaf Ffestiniog (adnoddau dehongli, cyfeirio ymwelwyr/ymdeimlad o le)<br>• Datblygu atyniadau a chyfleusterau twristiaeth ar raddfa fach<br>• Datblygu twristiaeth awyr agored drwy gydol y flwyddyn – effaith economaidd cysylltiedig<br>• Y cynnig manwerthu'n seiliedig ar gynnyrch lleol<br>• Ystod eang o ddigwyddiadau – ar gyfer trigolion ac ymwelwyr | **TWRISTIAETH A'R GYMUNED**<br>• Yr her ymarferol ac ariannol o ddarparu ffyrdd newydd o alluogi i ymwelwyr symud o gwmpas y dref<br>• Amserlen datblygu'r orsaf newydd a chyd-lynu darpariaeth a chyfleusterau posib<br>• Gwytnwch/gallu/parodrwydd busnesau bychain i ddatblygu eu modelau busnes mewn ymateb i dueddiadau newydd yn y farchnad/twristiaeth - effeithiau posib ar gynaliadwyedd<br>• Prinder adeiladau siopau yng nghanol y dref<br>• Parhad yn nirywiad ansawdd y gofod cyhoeddus a chanol y dref os na wneir unrhyw beth<br>• Cystadleuaeth gyda threfi mwy e.e. Porthmadog a chyrchfannau awyr agored/gwledig eraill i dwristiaid |

Byddwn yn asesu'r prif gryfderau a'r gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau mewn mwy o fanylder yn yr adran nesaf.

## 13 Casgliadau ac argymhellion

Yn dilyn ein hymgynghoriad a'n hymchwil, sy'n cynnwys yr archwiliad o'r gymuned a'r asesiad ymwelwyr, ac ystyriaeth o'r heriau a'r cyfleodd i'r dref, rydym wedi adnabod y themâu a ganlyn fel y blaenoriaethau adfywio i Flaenau Ffestiniog:

1. Datblygu sgiliau, meithrin galluedd, hyfforddi a denu/cynnal medrusrwydd
2. Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref
3. Digwyddiadau (cyfleoedd)
4. Cynnyrch twristiaeth, cyfleusterau a phrofiadau i ymwelwyr
5. Datblygu, cefnogi ac annog busnesau bychain
6. Gwelliannau i ganol y dref
7. Isadeiledd, cysylltiadau a chyfeiriadedd
8. Cyfleoedd i ddatblygu'r gymuned ac i adfywio
9. Adeiladau a'r amgylchedd adeiledig

Isod, rydym yn edrych yn fanylach ar yr heriau a'r cyfleoedd a welir yn y themâu hyn, ac mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn manylu ar y prosiectau a gynigiwyd a rhai posib sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn ac yn ymateb i'r cyfleoedd.

<u>Datblygu sgiliau, meithrin galluoedd, hyfforddi a denu/cynnal medrusrwydd</u>
Oherwydd diffyg cyfleusterau a buddsoddiad yn y dref, ynghyd ag economi nos/min nos gwan, mae denu/cadw pobl ifanc (ac ymwelwyr, wrth gwrs) yma yn her. Mae'r argymhellion a wnawn isod ynghylch cynyddu nifer yr ymwelwyr hefyd yn berthnasol wrth ymdrin â denu a chadw medrusrwydd; mae canol tref fywiog ac economi min nos yn allweddol i'r ddau beth.

Mae'n amlwg fod canolbwynt y gwaith datblygu y mae Cwmni Bro Ffestiniog yn ei wneud (mynediad i sgiliau, adnabod cyfleoedd cyflogaeth/busnes newydd) yn bwysig ac yn cael ei werthfawrogi, yn arbennig ymhlith pobl ifanc. Dylid parhau i flaenoriaethu'r gwaith hwn er mwyn hyrwyddo cyfleoedd ym Mlaenau Ffestiniog, ni waeth am y diwydiant twristiaeth.

Mae cyfle gwirioneddol yma i ennyn diddordeb pobl ifanc o'r newydd yn eu treftadaeth ddiwydiannol, bensaernïol, gymdeithasol a diwylliannol, trwy gynlluniau megis Llysgenhadon Ifanc Llechi Cymru a'r prosiect sgiliau traddodiadol. Mae hyn yn hollbwysig i gynaliadwyedd tymor hir y prosiectau a gynigiwyd ac at y diben cyffredinol o adfywio'r gymuned. Awgrymwn y dylai rhannu gwybodaeth a sgiliau, gweithio rhwng y cenedlaethau, a hyrwyddo'r cysyniad o dreftadaeth 'y dyfodol', hysbysu datblygiad y prosiectau hyn.

<u>Dehongli hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol y dref</u>
Mae yna gymuned gref a gweithgar ym Mlaenau Ffestiniog, a gallai cyfranogiad pobl cymharol ifanc, pe cymerid camau priodol i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a meithrin gallu, sefydlu etifeddiaeth i ddiogelu treftadaeth gymdeithasol a diwydiannol unigryw'r dref – gyda chefnogaeth y gymdeithas hanes leol gref.

Mae'r diffyg dehongli yn her allweddol i ymwelwyr a'r gymuned leol, ac mae nifer fawr ohonynt yn peidio ag ymddiddori yn eu treftadaeth. Mae hefyd angen ystyried cynaliadwyedd

tymor hir yr adnoddau dehongli yn arbennig y gost o gynnal a chadw, staffio, archifo, a pholisïau curadu a chadwraeth.

Mae'r Gymdeithas Hanes leol yn awyddus i gynnal astudiaeth dichonoldeb i asesu lleoliad, deunyddiau dehongli, rheoli'r casgliad, staffio, a chyfleoedd ariannu yn y dyfodol, gyda'r bwriad o sicrhau cartref parhaol ar gyfer ei harddangosfeydd a'i deunyddiau dehongli. Dylid ystyried hyn ynghyd â'r posibilrwydd o ddefnyddio lleoliadau eraill, gan gynnwys adeilad Antur Stiniog a'r orsaf reilffordd newydd.

Mae'n amlwg fod galw a dyhead ym Mlaenau Ffestiniog i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau dehongli, sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu'n wirfoddol a thros dro gan griw o unigolion hynod o wybodus ac ymroddedig. Mae ymdeimlad amlwg fod y gymuned eisiau adfer ei pherchnogaeth o'i hanes cymdeithasol a ffynnodd oherwydd y Chwyldro Diwydiannol, ac mae'n bwysig fod y dyhead hwn yn llywio datblygiad y strategaeth ddehongli.

Mae Cyngor Gwynedd yn datblygu strategaeth ddehongli gydlynol ar draws y cymunedau chwarelyddol fel rhan o'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig. Mae'n ategu'r wybodaeth leol a nodweddion unigryw pob ardal er mwyn creu stori unedig a dengar. Bydd y strategaeth yn llywio gwasanaethau dehongli cynaliadwy, dyfeisgar ac amrywiol sy'n ymateb i ddyheadau'r gymuned a gofynion yr ymwelydd.

<u>Digwyddiadau  (cyfleoedd)</u>

Mae nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus yn digwydd yn y dref (a'r ardal leol), sy'n creu cyfleoedd drwy'r flwyddyn i ddenu ymwelwyr i'r dref a'u cymell i wario arian. Dylid manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn trwy gyfleu a hyrwyddo arlwy a chyfleusterau'r dref.

Mae cyfleoedd ardderchog hefyd i adeiladau ar ddigwyddiadau sydd eisoes wedi'u sefydlu, ac i ddatblygu digwyddiadau newydd. Gellid hefyd cysylltu gyda rhwydwaith o ddigwyddiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn hyrwyddo'r ardal ymhellach.

<u>Cynnyrch twristiaeth, cyfleusterau a phrofiad yr ymwelydd</u>

Mae llu o gyfleoedd i'r dref ddenu ymwelwyr sy'n cerdded/beicio yn yr ardal i aros/i fwyta/i yfed/i ddefnyddio cyfleusterau'r dref, neu i farchnata'r dref fel canolfan i wyliau cerdded/beicio. Byddai buddsoddi mewn llety o ansawdd da (ar gyfer pob cyllideb) a dewis helaethach o gaffis/bwytai yn gwasanaethu marchnad dwristiaeth gynyddol ac yn hybu gweithgaredd twristiaeth gynyddol drwy gydol y flwyddyn.

Yn ôl y sôn, mae sefydlu Llwybr Llechi Eryri (sy'n mynd trwy ganol y dref) wedi cael effaith gadarnhaol yn barod ar farchnata cyrchfan a chynyddu amrywiaeth yr ymwelwyr; mae cynlluniau i wella rhannau o'r llwybr, yn ddibynnol ar ariannu pellach. Byddai gwella canol y dref a'r ddarpariaeth llety o fudd i gerddwyr wrth iddynt fynd drwy'r dref.

Datblygu, cefnogi ac annog busnesau bychain

Mae'n holl bwysig fod Blaenau Ffestiniog yn elwa o unrhyw gynnydd mewn gweithgaredd yn sgil enwebiad Safle Treftadaeth y Byd ac, yn sgil hynny, dylid manteisio ar unrhyw fuddsoddiad ar raddfa fawr yn yr ardal.

Yn y gorffennol/ac yn awr, rhoddid blaenoriaeth i greu swyddi yn deillio o brosiectau cyfalaf mawr; ond, mae'n amlwg fod angen rhoi mwy o gefnogaeth i fentrau llai a busnesau lleol cynaliadwy (er enghraifft, mae prinder lle yn her i fusnesau bychain sydd yn chwilio am eiddo yng nghanol y dref). Dylai Cyngor Gwynedd/asiantaethau ddatblygu, cefnogi ac annog busnesau bychain wrth ymateb i'r gofynion a adnabuwyd, a grymuso a chefnogi busnesau bychain i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'r dref ac mewn mentrau i gyd-farchnata.

Gwella Canol y Dref

Byddai gwella canol y dref a chael gwell sector llety/bwyd a diod yn galluogi i'r dref elwa o'r nifer fawr o ymwelwyr sydd yn heidio i'r atyniadau lleol, ac yn cynorthwyo i chwalu'r rhwyg sydd rhwng y dref a Llechwedd yn sgil y rhaniad ffisegol, a'r diffyg cyd-farchnata yn y gorffennol. Byddai'r hyn hefyd yn elwa o well cyd-weithio rhwng budd-ddeiliaid y dref.

Fel y crybwyllwyd eisoes, dylid cefnogi busnesau bychain drwy roi cyngor ac arweiniad iddynt, yn ogystal â thrwy grantiau/benthyciadau i wella'r canol, yn arbennig ar y Stryd Fawr. Dylid ystyried diffyg argaeledd gofodau manwerthu/canol y dref i fusnesau bychain er mwyn gwyrdroi'r canran uchel o unedau gwag.

Isadeiledd, cysylltiadau a chyfeiriadedd

Oherwydd y diffyg cysylltedd rhwng Llechwedd a'r dref, mae ymwelwyr yn gallu mynd, ac maen nhw yn mynd, i'r atyniadau yn Llechwedd heb fynd ar gyfyl y dref. Mae angen mynd i'r afael â hyn os yw'r dref am elwa o wariant ymwelwyr a'r effaith economaidd cysylltiol. Canlyniad hyn yw'r rhwyg canfyddedig rhwng Llechwedd a'r dref sydd angen ei reoli'n ofalus rhag iddo ymwreiddio ymhellach. Byddai adfer rhwydwaith llwybrau'r chwarelwyr yn fodd o ail-gysylltu'r dref gyda'i chwareli; byddai'n galluogi i ymwelwyr a thrigolion grwydro o un rhan i'r llall yn rhwydd ac yn ffordd o gydnabod elfen bwysig o dreftadaeth y dref.

Daw cyfle pwysig arall gyda datblygiad yr orsaf drenau newydd (ar gyfer Rheilffordd Ffestiniog a'r brif lein) a dylid sicrhau bod cydweithio'n digwydd gyda Rheilffordd Ffestiniog er mwyn i'r dref elwa i'r eithaf. Er enghraifft, gallai'r adeilad gynnwys gofod ar gyfer dehongli/arddangos a chyfeirio ymwelwyr, a bydd y datblygiad hefyd yn rhoi cyfle i ystyried llif pobl a thrafnidiaeth drwy'r dref. Bydd yr orsaf newydd, yn anad dim, yn dod â phobl i Flaenau Ffestiniog, ond yr her fydd denu'r teithwyr i mewn i'r dref ac i wario yno. Bydd arwyddion a gwybodaeth i dwristiaid yn hanfodol.

Cyfleoedd i ddatblygu ac adfywio'r gymuned

Mae teimlad y dylid newid cyfeiriad yr adfywio a'r datblygu economaidd er mwyn creu cyfleoedd newydd ym Mlaenau Ffestiniog ar gyfer y bobl leol, yn hytrach na chanolbwyntio ar dwristiaeth yn unig i greu incwm. Dylid ystyried datblygu cyfleusterau newydd a defnyddio hen adeiladau gwag yng nghyd-destun dod â budd i'r gymuned leol.

Adeiladau a'r amgylchedd adeiledig

Mae yna nifer o adeiladau pwysig a nodweddion adeiledig sydd yn haeddu sylw pellach o safbwynt potensial adnewyddu, ail-ddefnyddio ac adfywio. Mae mwy o wybodaeth ac asesiad cychwynnol, yn ddibynnol ar drafodaeth bellach gyda'r mudiadau cadwraeth perthnasol a swyddogion, yn Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol (Atodiad 3).

Yn sgil adolygiad o safeleodd treftadaeth sydd wedi eu diogelu (h.y. rhestredig neu gofrestredig) a'r rhai sydd heb eu diogelu hyd yma, mae nifer o ddarpar brosiectau allweddol wedi dod i'r amlwg. Nid y safleoedd mwyaf arwyddocaol yw'r rhain o reidrwydd, ond maent yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r potensial i gyfrannu at adfywiad cymunedol sylweddol. Rhestrir yr holl brosiectau yn y Cynllun Gweithredu atodol.

Mae'r safleoedd â blaenoriaeth wedi'u nodi (gan ddefnyddio'r meini prawf a restrwyd uchod) ac wedi eu rhestru yn y Cynllun Gweithredu yn ôl eu blaenoriaeth:

1. Chwarel Maenofferen. Casgliad o adeiladau, gan gynnwys y felin gradd II* rhestredig, o'r pwys mwyaf yng nghyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi, ac sydd mewn perygl (blaenoriaeth: uchel)
2. Cysylltu Llechwedd â'r dref, i gynnwys casgliad pwysig o adeiladau rhestredig wrth gilffordd Llechwedd; y potensial i ail-ddatblygu'r orsaf a'i chyfleoedd dehongli pwysig (blaenoriaeth: canolig)
3. Fferm y Gelli. Adeilad heb ei restru, ond sydd yn dweud cyfrolau am hanes cyn-ddiwydiannol Blaenau a safle un o'r chwareli cyntaf ym 1760.  Prosiect ar raddfa fechan fyddai hon, efallai i greu llety i dwristiaid (gan fod prinder mawr ym Mlaenau) ynghyd â dehongli treftadaeth y chwareli cynnar/Blaenau cyn-ddiwydiannol (blaenoriaeth: uchel)
4. Hen orsaf Diffwys a'r incleins. Ynghyd â'r tomennydd, yr incleins yw nodweddion archaeolegol amlycaf y diwydiant llechi yng nghanol y dref. Gallai mynediad atynt fod yn brofiad treftadaeth gyfoethog, un a fyddai hefyd yn sefydlu cysylltiad gyda Chwarel Maenofferen (gweler 1. Uchod) a Llechwedd ar droed, ar feic neu efallai gellid ail-greu profiad y Car Gwyllt (gweler y prif adroddiad) (blaenoriaeth: canolig/ uchel)
5. Mae Capel Manod a 62-64 Ffordd Manod yn adeiladau rhestredig allweddol sydd mewn perygl; gallent gynnig elfen o ddehongli (cymuned y diwydiant llechi) ac efallai llety arall i gefnogi'r gweithgaredd treftadaeth (blaenoriaeth: canolig)
6. Chwarel Maenofferen (gweler 1. uchod) a Llechwedd ar droed, ar feic neu ar Gar Gwyllt (gweler y prif adroddiad ) (blaenoriaeth: canolig).

Mae'r naw thema a adnabuwyd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r strategaeth economaidd a ddatblygwyd gan Gyrchlu Economaidd Llechi Cymru, sef:

- Cyfrannu at sgiliau ac addysg ein pobl ifanc a dysgu gydol oes
- Creu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy ac o werth uchel
- Gwella cyrchfannau
- Sicrhau hanes a naratif unedig
- Gwella ein cymunedau a'r ymdeimlad o falchder yn ein cymunedau
- Hyrwyddo a gwarchod ein treftadaeth ddiwydiannol unigryw, ein diwylliant, ein hiaith a'r dirwedd i bawb

## 14 <u>Ffynonellau ariannu posib</u>

Rydym wedi adnabod y ffynonellau ariannu posib isod. Manylir ar y ffynonellau hyn ymhellach yn y ddogfen ariannu atodol (ynghyd â ffynonellau eraill llai), a byddwn yn eu hystyried wrth ddatblygu ein prosiectau arfaethedig:

- Cais Twf Gogledd Cymru
- Dyfodol Gwledig
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)/Cronfa Busnes Micro a Bach
- Datblygu Cynllun Rhodd Ymwelwyr
- Arian Loteri
- Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol
- Pawb â'i Le (Grantiau Canolig a Mawr)
- Rhaglen Wledig Rownd 2
- Y Gronfa Dreftadaeth (CTL gynt)
- Rhaglen Datblygu Gwledig/Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER)
- Y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol
- Rhaglen Cartrefi Gwag
- Grantiau Cymorth Cartrefi Gwag
- Adfywio Llywodraeth Cymru

## 15 <u>Camau Nesaf</u>

Rhestrir y prosiectau cyfredol, arfaethedig a phosib yn y Cynllun Gweithredu. Yn dilyn trafodaethau gyda mudiadau cymunedol a budd-ddeiliaid, rydym o'r farn fod y prosiectau a ganlyn yn haeddu ystyriaeth bellach, a'u bod yn adlewyrchu'r dyheadau i wellai'r gymuned ac i fanteisio ar gyfleoedd adfywio newydd:

- Datblygu cynllun cynnig cysyniadol ar gyfer sefydlu ffyrdd mynediad newydd a rhwydwaith o lwybrau a fyddai'n cysylltu'r dref gyda'r chwareli ac yn sefydlu mannau dehongli ar gyfer ymwelwyr a thrigolion
- Datblygu adnoddau dehongli ac arwyddion a fyddai'n cyfeirio ymwelwyr ac yn dehongli adeiladau hanesyddol
- Ymchwilio'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau i ymwelwyr yn yr orsaf drenau newydd
- Cynnal astudiaeth dichonoldeb ar gyfer darparu gwasanaethau dehongli parhaol yng nghanol y dref
- Sicrhau y gall y gymuned fanteisio ar ddatblygiad yr orsaf newydd fel ysgogiad pwysig i'r prosiectau a gynigiwyd, a chyfle i wella profiad yr ymwelydd

- Dylid ymchwilio prosiectau'r amgylchedd adeiledig hanesyddol a gynigiwyd fesul un, a dylid eu blaenoriaethu yn ôl eu heffaith ar adfywio'r gymuned (gweler y matrics) a'r tebygolrwydd o sicrhau arian.

Mae'r prosiectau blaenoriaeth hyn wedi eu hadnabod yn sgil ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid. Ond, bydd y gwaith o'u gweithredu a'u blaenoriaethu, fel dengys y Cynllun Gweithredu, yn ddibynnol ar adnabod corff arweiniol addas a sicrhau'r arian i ymgymryd â'r gorchwylion a adnabuwyd. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a budd-ddeiliaid allweddol.

## Atodiad 1   Data Wardiau

Dengys y tabl isod (ffynhonnell: data cyfrifiad, 2011) y sectorau hynny lle cyflogir aelodau o'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd. Ar y cyfan, mae'r cyfrannau'n debyg ar draws y sectorau, serch hynny mae rhai gwahaniaethau nodedig. Mae cyflogaeth ym Mowydd a Rhiw yn uwch yn y sector adeiladu ond yn is mewn cyfanwerthu, manwerthu ac addysg. Yn Niffwys a Maenofferen, mae cyflogaeth yn uwch yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; yn Nheigl mae cyflogaeth yn is yn y sector llety a gwasanaethau bwyd, gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn.

Y tri sector â'r gyflogaeth uchaf yw iechyd a gofal; cyfanwerthu a manwerthu; ac adeiladu. Y sector isaf yw amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

Mae'r tabl isod yn dangos y sectorau lle cyflogir trigolion Blaenau Ffestiniog sy'n weithgar yn economaidd.

Tabl sectorau cyflogaeth trigolion:

| Diwydiant/cyflogaeth | Bowydd a Rhiw | Diffwys a Maenofferen | Teigl | Canran |
|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth, Coedwigaeth a Physgota | 1.3% | 0% | 1.4% | 0.9% |
| Mwyngloddio, Chwarela, Ynni a Dŵr | 7.4% | 7.6% | 8.3% | 7.8% |
| Gweithgynhyrchu | 8.8% | 7.1% | 8.6% | 8.2% |
| Adeiladu | 13.3% | 9.6% | 8.6% | 10.5% |
| Cyfanwerthu a Manwerthu | 11.4% | 13.1% | 12.4% | 12.3% |
| Trafnidiaeth a Storio | 4.0% | 4.1% | 3.0% | 3.7% |
| Llety a Gwasanaethau Bwyd | 9.3% | 9.4% | 8.0% | 8.9% |
| Cyfathrebu, Cyllid ac Eiddo | 2.2% | 2.4% | 3.5% | 2.7% |
| Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | 3.0% | 2.4% | 3.4% | 2.9% |
| Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogaeth | 4.0% | 4.3% | 3.4% | 3.9% |
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus ac Amddiffyn | 4.0% | 5.5% | 3.5% | 4.3% |
| Addysg | 7.9% | 10.6% | 11.4% | 10% |
| Iechyd a gofal | 18.1% | 18.2% | 19.7% | 18.6% |
| Eraill | 5.4% | 5.7% | 5.0% | 5.4% |

**Atodiad 2 Rhestr o unigolion/mudiadau y cysylltwyd â nhw**

- Antur Stiniog
- Blaenau Bendigedig
- CellB/ Gwallgofiaid
- Siambr Fasnach a Thwristiaeth
- Cwmni Bro Ffestiniog
- Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog
- Cyngor Tref Ffestiniog
- Ceudyllau Llechwedd
- Welsh Slate/Breedon
- Y Dref Werdd

**Atodiad 3 : Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol [Dalenni 1 – 7]**